
# Gwahanglwyf yn diolch i Iesu


www.lambsongs.co.nz gan Jill Kemp (cyf. Catrin Roberts) Lluniau gan Richard Gunther




**Pan wnaeth Iesu iacháu deg dyn oedd yn sâl gyda'r gwahanglwyf, dim ond un ddaeth yn ôl i ddweud diolch. Mae'r stori wir hon yn fy atgoffa bod angen i mi ddweud diolch.**




**Roedd yna ddyn yn sâl gyda'r gwahanglwyf. Pe bai pobl yn dod yn agos ato, roedd hi'n bosib y bydden nhw hefyd yn dal y salwch, felly roedd yn rhaid iddo fyw gyda gwahangleifion eraill.**




**Doedd y bobl oedd yn sâl gyda'r gwahanglwyf ddim yn cael gweithio er mwyn cael arian i brynu bwyd. Roedd pobl garedig yn gadael bwyd allan iddyn nhw. Roedd y gwahangleifion yn colli gweld eu teuluoedd a'u ffrindiau.**




**Cyn iddyn nhw fynd yn sâl, roedd ganddyn nhw lawer o ffrindiau a bwyd i'w fwyta. Doedden nhw ddim yn hoffi gorfod gofyn i bobl am arian.**




**Ond pan welodd Iesu'r gwahangleifion tlawd, dyma fe'n rhoi help iddyn nhw. Fe wnaeth Iesu hyd yn oed eu cyffwrdd nhw. "Ewch adre," dwedodd Iesu, "Rydw i wedi'ch gwneud chi'n iach."**



**Wrth i'r deg gwahanglwyf gerdded ar hyd y ffordd, dyma nhw'n sylweddoli bod y salwch wedi diflannu! Roedd Iesu wedi'u gwella! "Gadewch i ni fynd adre," medden nhw.**



**Ond dyma un dyn yn troi'n ôl a mynd i ddiolch i Iesu. Dwedodd,"Diolch am fy iacháu". "Roedd yna ddeg o ddynion yn sâl gyda'r gwahanglwyf," dwedodd Iesu. "Ti ydy'r unig un sydd wedi dod nôl i ddweud diolch."**



**Aeth y dyn yn ôl adref at ei deulu yn Samaria. Roedd pawb mor hapus i'w weld a chlywed am Iesu yn ei iacháu!**